| **Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyniadau 2022/23** | |
|---|---|
| **Awdurdod Derbyn:** Cyngor Dinas Casnewydd | |
| **Ysgrifennydd i'r Fforwm:** Prif Swyddog Derbyn i Ysgolion | **Manylion cyswllt: E-bost / Ffôn:** 01633 235236/210533<br>school.admissions@newport.gov.uk |

**Aelodaeth a mynychu'r Fforwm**

| Enw | Swydd | Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm * | Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod) |
|---|---|---|---|
| 1. Aelod Etholedig | **Cadeirydd** | Ers mis Mawrth '19 (Etholwyd yn Gadeirydd fis Tach '21) | ALI |
| 2. Aelod Etholedig | **Is-gadeirydd** | Ers mis Mawrth '19 (Etholwyd yn Is-gadeirydd fis Tach '21) | ALI |
| 3. Cyfarwyddwr Ysgolion Esgobaeth Gatholig | Aelod Pleidleisio | Ers mis Rhagfyr '08 (Ail-etholwyd fis Tach '16, mis Tach '20) | C |
| 4. Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Adnoddau) | Aelod Pleidleisio | Ers mis Rhagfyr '09 (Ail-etholwyd fis Mawrth '22) | ALI |
| 5. Rheolwr Derbyn i Ysgolion | Aelod Pleidleisio | Ers mis Tachwedd '12 (Ail-etholwyd fis Tach '16, mis Tach '20) | ALI |
| 6. Pennaeth, Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd | Aelod Pleidleisio | Ers mis Mawrth '16 (Ail-etholwyd fis Mehefin '20) | Y/CG |
| 7. Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanfarthyn | Aelod Pleidleisio | Ers mis Tach '20 | Y/CG |
| 8. Pennaeth, Ysgol Gyfun Caerllion | Aelod Pleidleisio | Ers mis Tach '18 | Y/CG |
| 9. Cadeirydd y Pwyllgor Derbyn, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff | Aelod Pleidleisio | Ers mis Tach '10 (Ail-etholwyd fis Rhag '14 a mis Mawrth '19) | Y/GG |
| 10. Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Mihangel | Aelod Pleidleisio | Ers mis Mawrth '18 (Ail-etholwyd fis Mehefin '22) | Y/GG |
| 11. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Malpas | Aelod Pleidleisio | Ers mis Mawrth '20 | RhL |
| 12. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon | Aelod Pleidleisio | Ers mis Mawrth '20 | RhL |
| 13. Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent | Aelod Pleidleisio | Ers Tach '19 (Ail-etholwyd fis Mehefin '22) | CYM/L |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14. Rheolwr ADY | Aelod Pleidleisio | Ers mis Mawrth '15 (Ail-etholwyd fis Mawrth '19) | CYM/L |
| 15. Cydlynydd Addysg (Plant sy'n Derbyn Gofal) | Aelod nad yw'n pleidleisio | Ers mis Mehefin '15 (Ail-etholwyd fis Tach '19) | ALI / PDG |
| 16. Ymgynghorydd Ymddygiad ac Awtistiaeth | Aelod nad yw'n pleidleisio | Ers mis Mawrth '19 | ALI / ADV?? |
| 17. Swyddog Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd | Aelod nad yw'n pleidleisio | Ers Mehefin '23 | ALI / FfD |

***Os gwasanaethwyd am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad ail-ethol hefyd**.

| **Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd** | | |
|---|---|---|
| **Enwebwyd yr Aelodau gan** | **Aelodaeth Graidd** | **Acronym** |
| ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod | 1 i 5 | **ALI, ALI / AAA / ADY, ALI / PDG** |
| Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru | 1 i 3 | **yr Eglwys yng Nghymru** |
| Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig | 1 i 3 | **C** |
| Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir | 1 i 3 | **Y/CG** |
| Ysgolion - sefydliedig | 1 i 3 | **Y/S** |
| Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyir | 1 i 3 | **Y/GG** |
| Cynrychiolwyr sy'n Rhiant-lywodraethwyr | 1 i 3 | **RhL** |
| Cynrychiolwyr y gymuned leol | Hyd at 3 | **CYM/L** |

**Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb** (Nid oes unrhyw beth yn Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn (Cymru) 2003[1] sy'n atal rhai neu bob aelod rhag cymryd rhan yn rhithiol). Mae rheoliad 9 Rheoliadau 2003 yn nodi y gall aelodau craidd reoleiddio eu gweithdrefn eu hunain yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau hynny)

| | **Dyddiad** | **Nifer yr Aelodau o'r Fforwm yn bresennol - yn ôl categori** |
|---|---|---|

[1] Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 (legislation.gov.uk)

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod cyntaf** | 8 Tachwedd 2022 | 9 (3*ALI, 1*C, 2*Y/CG, 1*Y/GG, 1*RhL, 1*PDG cyfetholedig) |
| **Ail gyfarfod** | 28 Mehefin 2023 | 8 (3*ALI, 1*Y/GG, 2*CYM/L, 1*RhL, 1*CYM/L cyfetholedig) |
| **Trydydd cyfarfod** | Dd/B | |

| **A yw eich awdurdod wedi sefydlu fforwm ar y cyd ag awdurdod lleol cyfagos? Os ydyw, nodwch fanylion yr awdurdod dan sylw a pha mor llwyddiannus y bu hyn.** |
|---|
| Nac ydy |

| |
|---|
| **Cadarnhewch a yw'r awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006[2] [gan gynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau[3]** erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].<br><br>**Os nad yw unrhyw awdurdod derbyn wedi bodloni'r terfynau amser, rhowch fanylion yma.**<br><br>**Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?** |
| Ni chyhoeddodd unrhyw un o Gyrff Llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir Casnewydd ymgynghoriad ar gyfer 2024/25. Fodd bynnag, dim ond Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams oedd angen gwneud hynny, gan fod ei hymgynghoriad diwethaf ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22. Adroddodd y Corff Llywodraethu ei fod wedi mynd yn groes i'r rheoliadau i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y cafodd ei nodi. Yn ffodus, nid oes unrhyw newidiadau polisi wedi'u gweithredu ers yr ymgynghoriad diwethaf.<br><br>Bydd gofyn i bob awdurdod derbyn yng Nghasnewydd ymgynghori ar drefniadau derbyn ar gyfer 2025/26. |

[2] Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 (legislation.gov.uk)

[3] Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriadau ar drefniadau'r chweched dosbarth ar gyfer ysgolion sydd â chweched dosbarth y dylid eu cynnal ar yr un pryd.

| **Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u gweithredu er mwyn bod o fudd i blant sy'n agored i niwed?**<br>**A fuont yn llwyddiannus?**<br>**Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?** |
|---|
| Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth er budd gorau pob plentyn, yn enwedig y rhai a nodwyd fel rhai sy'n agored i niwed. Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld y dystiolaeth ganlynol:<br>• Rhoddir blaenoriaeth o ran derbyn i Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal ac mae hyn yn cynnwys derbyn disgyblion sy'n derbyn gofal i'r lleoliad ysgol yr ystyrir fel yr un mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion hyd yn oed mewn digwyddiadau lle y cyrhaeddwyd neu y rhagorwyd ar y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd; ac mae'r Cydlynydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn eistedd ar y Fforwm Derbyn er nad yw'n pleidleisio.<br>• Pan fo ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol, bydd y Cyngor yn derbyn y plentyn i'r lleoliad hwnnw cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbyniwyd. Mae'r Rheolwr ADY yn eistedd ar y Fforwm Derbyn.<br>• Mae Meini Prawf Gordanysgrifio'r Cyngor yn cyfeirio'n benodol at blant y gwneir cais ar eu cyfer am reswm meddygol ac yn rhoi blaenoriaeth i blant o'r fath o fewn y categori yn y dalgylch ac y tu allan i'r dalgylch.<br>• Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r sector nas cynhelir a'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau pontio i ddosbarthiadau meithrin a Derbyn, gan leihau nifer y ceisiadau hwyr ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd o gais llwyddiannus.<br>• Mae perthynas waith agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg sy'n cynorthwyo wrth sicrhau ceisiadau dros ben a hwyr yn y prosesau trosglwyddo fesul cam ac yn ystod y flwyddyn ac wrth dracio'r disgyblion nad ydynt wedi cymryd y lle yn yr ysgol a gynigiwyd iddynt.<br>• Pennir bod plant teuluoedd Personél Lluoedd Arfog y DU / Gweision y Goron sy'n bwriadu symud i Gasnewydd yn bodloni'r meini prawf preswylio ar gyfer yr ysgol ddewis os oes tystiolaeth briodol ar gyfer eu cais, sy'n sicrhau felly bod dim anfantais; mae hyn yn cynnwys derbyn plant Personél Lluoedd y DU i ysgol y dalgylch hyd yn oed pan fo'r ysgol wedi cyrraedd y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer y grŵp blwyddyn neu eisoes wedi derbyn mwy.<br>• Caiff ceisiadau i dderbyn plant sy'n cael eu lletya dros dro mewn Lloches Trais Domestig eu prosesu fel blaenoriaeth waeth beth yw'r dyddiad y derbynnir y ceisiadau i sicrhau bod eu haddysg mor ddi-dor â phosibl.<br>• Mae perthnasoedd gwaith agos gyda Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GALIEG) yn helpu gyda derbyn plant yn gyflym o deuluoedd SRT neu lle mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol i'w hysgolion agosaf sydd fwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth yn yr iaith gartref i blant a'u teuluoedd sydd newydd gyrraedd y Ddinas er mwyn hwyluso'r broses derbyniadau. Mae Pennaeth Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent yn eistedd ar y Fforwm Derbyniadau.<br>• Mae aelod o'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn bartner allweddol yn y panel Symudiadau a Reolir gan Ysgolion Uwchradd wythnosol lle trafodir ceisiadau derbyn yn ystod y flwyddyn cymhleth gydag uwch gynrychiolwyr ysgolion uwchradd a rhanddeiliaid perthnasol eraill.<br>• Mae'r Cyngor yn gweithredu Protocol Mynediad Teg o fewn y Polisi Derbyn i Ysgolion i sicrhau bod mynediad i addysg briodol yn cael ei sicrhau'n gyflym ar gyfer pob plentyn, yn enwedig y disgyblion hynny y mae eu lleoliadau mewn perygl oherwydd y gellir eu hystyried yn agored i niwed, am amrywiaeth o resymau, ac y gallant brofi oedi wrth gael eu derbyn i ysgol neu fethu â chael mynediad i le mewn ysgol o |

**Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt wedi gweithio?**
**Faint o blant a dderbyniwyd i bob ysgol dan y gweithdrefnau?**
**A ydych chi wedi nodi cynnydd yn niferoedd y derbyniadau yn ystod y flwyddyn, os felly pa gamau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater?**

Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd o 3,625 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2023. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos y bydd 13,908 o blant ysgol gynradd a 11,747 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd erbyn 2028, sef 589 o blant ychwanegol o gymharu â'r nifer yn 2023.

**Derbyniadau yn ystod y flwyddyn**

| Blwyddyn | % capasiti dros ben (Mehefin) | | | | Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | | | | % yn symud i'r ALl | % y dewisiadau cyntaf a fodlonwyd | | | % yr apeliadau a gadarnhawyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfrwng Saesneg | | Cyfrwng Cymraeg | | | | | | | | | | | |
| | Cyn | Uwch | Cyn | Uwch | Mei | Cyn | Uwch | Cyfanswm | | Mei | Cyn | Uwch | Cyn | Uwch |
| 2018/19 | 7 | 11 | 13 | 26 | 138 | 1028 | 406 | 1572 | 40 | 91 | 80 | 93 | 3 | 31 |
| 2019/20 | 8 | 10 | 13 | 27 | 91 | 789 | 328 | 1208 | 41 | 78 | 61 | 63 | 7 | 0 |
| 2020/21 | 9 | 9 | 14 | 29 | 138 | 945 | 349 | 1432 | 44 | 79 | 57 | 67 | 12 | 16 |
| 2021/22 | 9 | 7 | 17 | 34 | 206 | 1129 | 497 | 1832 | 41 | 77 | 50 | 57 | 9 | 25 |
| **2022/23** | **7** | **5** | **19** | **36** | **189** | **1322** | **644** | **2155** | **48** | **72** | **51** | **52** | **11** | **31** |

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau y caiff pob cais am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ei brosesu a'i bennu o fewn yr amserlenni a restrir yn y Cod statudol, ac yn gyffredinol gall gyflawni hyn. Serch hynny, bu achosion lle na fu hyn yn bosibl. Gellir priodoli hyn yn rhannol i geisiadau mewn perthynas â'r disgyblion oedran ysgol uwchradd lle y mae angen ystyried ffactorau megis priodoldeb dewisiadau'r cwricwlwm a hanes ysgol y plentyn.  Yn anochel, cyfeirir rhai achosion at y panel Symudiadau a Reolir, a gaiff, er budd y plentyn, ei ddefnyddio hefyd i drafod priodoldeb lleoliad y disgybl a sicrhau bod y cymorth priodol ar waith wrth iddo gael ei dderbyn. Ar achlysuron eraill, oherwydd swm enfawr y ceisiadau a dderbyniwyd, ynghyd â'r ganran isel iawn o leoedd dros ben ledled y Ddinas bu oedi wrth derfynu ceisiadau tra roedd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn gweithio gyda'r rhieni a chyda chydweithwyr er mwyn sicrhau ysgolion priodol eraill neu ysgolion lle mae amryw frodyr a chwiorydd.

| Rhowch grynodeb byr o'r materion derbyn allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â nhw? |
| --- |
| <ul><li>Mae'r broses trawsnewid ADY wedi cyflwyno her sylweddol i'r Cyngor ac ysgolion eleni wrth reoli proses bontio / trosglwyddo ysgolion ar gyfer disgyblion ADY prif ffrwd. Mae hyn wedi parhau tan 2023 a nawr mae angen eglurhad brys ar sut mae'r Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cyd-fynd â'r Ddeddf Addysg wrth roi i rieni disgyblion ag ADY yr hawl i ddatgan ysgol o'u dewis (waeth beth yw eu dalgylch ac ati) ac yn benodol, faint o bwys y dylid ei roi ar eu dewis. Yn ogystal, wrth drosglwyddo yn ystod camau, nid yw'n ymddangos bod yr amserlenni deddfwriaethol yn caniatáu amser i rieni herio (drwy'r Tribiwnlys) y ffaith nad enwir unrhyw ysgol yn y CDU cyn gorfod mynd drwy'r broses derbyn i ysgolion. Roedd y Cod ADY blaenorol yn darparu amserlenni llym ar gyhoeddi penderfyniadau ar gyfer disgyblion ADY ond mae amwysedd yn y cod cyfredol o ran hyn, hawliau cyfreithiol y rhai sy'n derbyn CDUau prif ffrwd a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn ar frys i atal dryswch diangen i ddisgyblion, rhieni ac Awdurdodau Lleol.</li><li>Er gwaethaf llawer o gyhoeddusrwydd a siasio, mae nifer y ceisiadau trosglwyddo yn ystod y camau hwyr (gan gynnwys newid dewisiadau ar ôl y dyddiad cau) yn parhau'n broblem, gan achosi oedi wrth brosesu ceisiadau a chynyddu'r posibilrwydd felly bod disgyblion yn cael gwrthod lleoedd yn eu hysgolion dewis cyntaf neu yn eu dalgylch. Mae hyn yn achosi ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion yn ystod y broses bontio. Yng Nghasnewydd mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn dal i brosesu ceisiadau hwyr ym mis Medi, sy'n golygu bod apeliadau'n rhedeg i fis Hydref.</li><li>Mae'r pwysau am leoedd y tu allan i'r rownd dderbyn arferol yn parhau'n her mewn nifer o leoliadau daearyddol ac mae rhai ysgolion / clystyrau â dim ond ychydig o leoedd ar gael neu ddim lleoedd o gwbl. I'r ychydig ysgolion hynny â lleoedd ar gael gall hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn meintiau cohort yn ystod y flwyddyn academaidd, sydd yn ei dro'n arwain at broblemau staffio a chyllidebol.</li><li>Pan fydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn methu darparu ar gyfer dewis y rhieni oherwydd y lleoedd sydd ar gael, gall fod sgil-effeithiau sylweddol gan gynnwys cynnydd o ran darparu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol a chostau cysylltiedig, anawsterau i rieni y mae ganddynt, o bosibl, blant o oedrannau tebyg mewn dwy ysgol neu fwy, presenoldeb is a phrydlondeb gwael.</li><li>Oherwydd nifer y ceisiadau trosglwyddo yn y camau hwyr, nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion cynradd, mae nifer yr apeliadau derbyn a wneir hefyd yn parhau'n uchel. Mae hyn yn rhoi pwysau ar staff yn eu gallu i baratoi at yr achosion hyn a'u cefnogi ac yn aml gall paneli apeliadau gynnal achos rhagfarn rhieni ar y sail fod yr ysgol arall a gynigir yn bellter sylweddol i ffwrdd neu na all dderbyn yr holl frodyr a chwiorydd.</li><li>Adroddodd casgliad data addysg gartref CLILC 2023 gynnydd o 32% ar gyfer plant a addysgir gartref yng Nghasnewydd ar gyfrifiad 18 Ionawr 2022. Mae nifer y rhieni sy'n rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am eu bwriad i addysgu eu plant gartref yng Nghasnewydd wedi codi o 189 yn 2022 i 249 yn 2023. Ar 16 Hydref 2023, roedd 295 o blant yn cael eu haddysgu gartref yng Nghasnewydd.</li></ul>Caiff y Fforwm Derbyn ddiweddariadau rheolaidd ar bob mater derbyn ac mae'r sefyllfa o ran capasiti'n cael ei monitro'n benodol gan y Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol. Mae'r Cyngor wedi ceisio datrys y broblem o geisiadau trosglwyddo ar gam hwyr dro ar ôl tro, drwy fwy o gyhoeddusrwydd, hysbysu a gweithio gydag ysgolion; ond mae'r niferoedd yn uchel o hyd. |

| **A oes gweithgarwch derbyniadau cydlynol yn eich awdurdod lleol?**<br>**Os felly, pa awdurdodau derbyn yn ardal eich awdurdod lleol sy'n cymryd rhan?**<br>**A yw wedi bod yn llwyddiannus / buddiol?** |
|---|
| Nid oes unrhyw weithgarwch cydlynol ffurfiol yn bodoli rhwng awdurdodau derbyn Casnewydd, ond gwneir trefniadau anffurfiol gan y Cyngor lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau 'blocio lleoedd'. Mae'r trefniadau anffurfiol hyn yn cyflwyno her weinyddol sylweddol ac felly byddai CDC yn croesawu dull cydlynol deddfwriaethol ffurfiol yng Nghasnewydd a gydag awdurdodau cyfagos. |

**Derbyniadau ac Apeliadau Ysgol - Rownd Derbyn Arferol 2023**

| Enw'r Ysgol | Nifer derbyn | Nifer y dewisiadau a fynegwyd | Nifer dewisiadau'r rhieni a fodlonwyd | Nifer y lleoedd a ddyrannwyd | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Alway | 54 | 49 | 36 | 36 | | |
| Ysgol Basaleg | 330 | 478 | 330 | 330 | 5 | 2 |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 248 | 334 | 232 | 233 | | |
| Ysgol Gynradd Lodge Hill | 45 | 47 | 28 | 28 | | |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng | 75 | 51 | 47 | 47 | | |
| Ysgol Gynradd Clytha | 30 | 87 | 30 | 30 | 4 | 0 |
| Ysgol Gynradd Crindau | 45 | 56 | 44 | 45 | | |
| Ysgol Gynradd Eveswell | 60 | 136 | 60 | 60 | 2 | 0 |
| Ysgol Gynradd Gaer | 60 | 89 | 57 | 60 | | |
| Ysgol Gynradd Glan Llyn | 60 | 91 | 56 | 57 | | |
| Ysgol Gynradd Glan Wysg | 90 | 152 | 90 | 90 | | |
| Ysgol Gynradd Glasllwch | 30 | 97 | 30 | 30 | 2 | 0 |
| Ysgol Gynradd High Cross | 30 | 97 | 29 | 30 | | |
| Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî | 45 | 141 | 45 | 45 | 3 | 0 |
| Ysgol Gynradd Langstone | 45 | 63 | 39 | 39 | | |
| Ysgol Gynradd Llanfarthyn | 30 | 14 | 9 | 9 | | |
| Ysgol Uwchradd Llan-wern | 260 | 200 | 166 | 169 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Llyswyry | 212 | 238 | 165 | 169 | | |
| Ysgol Gynradd Llyswyry | 90 | 96 | 66 | 66 | | |
| Ysgol Gynradd Maesglas | 38 | 47 | 36 | 38 | | |
| Ysgol Gynradd Maendy | 70 | 97 | 61 | 62 | | |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng | 54 | 38 | 23 | 23 | | |
| Ysgol Gynradd Llys Malpas | 30 | 32 | 24 | 24 | | |
| Ysgol Gynradd Parc Malpas | 30 | 50 | 28 | 28 | | |
| Ysgol Gynradd Maerun | 60 | 77 | 60 | 60 | | |
| Ysgol Gynradd Millbrook | 45 | 53 | 33 | 33 | | |
| Ysgol Gynradd Milton | 90 | 53 | 44 | 44 | | |
| Ysgol Gynradd Mynwy | 60 | 49 | 42 | 43 | | |
| Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd | 30 | 106 | 30 | 30 | | |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | 203 | 224 | 185 | 190 | | |
| Ysgol Gynradd Pentre-poeth | 60 | 92 | 60 | 60 | | |
| Ysgol Gynradd Pilgwenlli | 78 | 99 | 78 | 78 | 4 | 0 |
| Ysgol Gynradd Ringland | 36 | 37 | 21 | 22 | | |
| Ysgol Gynradd Tŷ-du | 60 | 156 | 60 | 60 | | |
| Ysgol Gynradd Somerton | 29 | 31 | 18 | 18 | | |
| Ysgol Gynradd Sant Andrew | 90 | 130 | 90 | 90 | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig Dewi | 30 | 23 | 23 | 23 | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant | 27 | 29 | 26 | 26 | | |
| Ysgol Uwchradd Gatholig | 240 | 284 | 240 | 240 | 7 | 0 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant | 30 | 26 | 26 | 26 | | |
| Ysgol Sant Silian | 242 | 327 | 242 | 242 | 6 | 3 |
| Ysgol Gynradd Sain Silian | 90 | 120 | 80 | 80 | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig y | 60 | 46 | 38 | 38 | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig | 30 | 27 | 24 | 24 | | |
| Ysgol Gynradd Gatholig St | 30 | 29 | 28 | 28 | | |
| Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw | 45 | 67 | 45 | 45 | | |
| Ysgol John Frost | 248 | 356 | 248 | 248 | 1 | 1 |
| Ysgol Gynradd Parc Tredegar | 60 | 65 | 55 | 58 | | |
| Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed | 150 | 116 | 109 | 109 | | |
| Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon | 30 | 55 | 30 | 30 | 3 | 1 |
| Ysgol Gymraeg Casnewydd | 52 | 58 | 43 | 43 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Ifor Hael | 30 | 55 | 30 | 30 | | |
| Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli | 30 | 23 | 9 | 13 | | |
| **Cyfanswm** | 4326 | 5593 | 3748 | 3779 | 37 | 7 |

| **Pa ddulliau mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau?** |
|---|
| Caiff cofnodion pob cyfarfod y Fforwm Derbyn, pan gânt eu cytuno, eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac felly hefyd adroddiadau blynyddol y Fforwm Derbyn. |

**Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:**

**Hefyd, rhowch y ddolen berthnasol:**
Fforwm Derbyn i Ysgolion | Cyngor Dinas Casnewydd

**Llofnod: L. Poole (Ysgrifennydd i'r Fforwm)**

**Dyddiad: 28.11.2023**

**Dychwelwch yr adroddiad cyflawn erbyn *30 Tachwedd 2023***